



Esgobaeth
Bangor
The Diocese
of Bangor



Cynnig

i Gyngor Ardal Weinidogaeth Bro Madryn
gan y Parch Richard Wood
yn dilyn trafodaethau a ddilynodd
yr Arolwg a gynhaliwyd yn gynharach yn 2015
gan gynnwys canlyniad y pleidlais.

Proposal

to the Bro Madryn Ministry Area Council
by the Rev'd Richard Wood
following discussions resulting from
the Review conducted in early 2015
including the result of the vote.



Mae Bro Madryn yn Ardal Weinidogaeth (plwyf) dros Ogledd Pen Llŷn yng Ngogledd Cymru ac y rhan o Esgobaeth Bangor yn yr Eglwys yng Nghymru (Anglican). Mae'n cynnwys naw eglwys: Beuno Sant, Pistyll; Dewi Sant, Nefyn; S Edern, Edern; S Cwyfan, Tudweiliog; S Gwynhoedl, Llangwnnagl; Santes Fair, Bryncroes; Beuno Sant, Botwnnog; S Iestyn, Llaniestyn a S Tudwen, Llandudwen.

Cyflwynwyd y fersiwn wreiddiol o'r ddogfen hon (sy'n cynnwys tudalennau 4-33, golygwyd ar gyfer cywiriadau a gwell cyfieithu yn y fersiwn hwn) i eglwysi Bro Madryn ar ddydd Sul, 1 Tachwedd, 2015.

Cyfarfu Cyngor yr Ardal Weinidogaeth (CPE) wedyn i drafod a phleidleisio ar y cynigion, ac mae canlyniad y cyfarfod hwnnw yn cael ei grynhai ar dudalennau 34/35ff.

Mae'r ddogfen hon yn diweddu gyda neges bersonol gan fy hun mewn ymateb i broses gyfan a Bro Madryn wedi bod trwy, ac yn derbyn fy nghynigion yn y rhan fwyaf eu pen draw.

Y Parch Richard Wood
Morfa Nefyn | Rhagfyr, 2015

Bro Madryn is a Ministry Area (parish) across the North of the Llŷn Peninsula in North Wales and is part of the Diocese of Bangor in the (Anglican) Church in Wales. It consists of nine churches: St Beuno, Pistyll; St David, Nefyn; St Edern, Edern; St Cwyfan, Tudweiliog; St Gwynhoedl, Llangwnnagl; St Mary, Bryncroes; St Beuno, Botwnnog; St Iestyn, Llaniestyn and St Tudwen, Llandudwen.

The original version of this document (comprising pages 4-33, edited for corrections and improved translation in this version) was presented to the churches of Bro Madryn on Sunday, 1st November, 2015.

The Ministry Area Council (PCC) met subsequently to discuss and vote upon the proposals, and the result of that meeting is summarised on pages 34/35ff.

This document concludes with a personal message from myself in response to the whole process through which Bro Madryn has been and the ultimate acceptance of my proposals in their greatest part.

The Rev'd Richard Wood
Morfa Nefyn | December, 2015

Cynnwys | Contents

Cyflwyniad Introduction	4 5
Cynnig 1 Proposal (Litwrgi a Ddarlleniadau Liturgy & Readings)	6 7
Cynnig 2a Proposal 2a (Nefyn)	6 7
Cynnig 2b Proposal 2b (Botwnnog)	10 11
Cynnig 2c Proposal 2c (Pistyll)	12 13
Cynnig 2d Proposal 2d (Tudweiliog)	14 15
Cynnig 2e Proposal 2e (Llaniestyn)	16 17
Cynnig 2f Proposal 2f (Edern)	16 17
Cynnig 2g Proposal 2g (Bryncroes)	18 19
Cynnig 2h Proposal 2h (Llandudwen)	20 21
Cynnig 2i Proposal 2i (Llangwnnadl)	22 23
Cynnig 2j Proposal 2j (5 ^{ed} Suliau 5 th Sundays)	24 25
Cynnig 3 Proposal 3 (Ad-drefnu Eglwys Nefyn Re-ordering Nefyn Church)	26 27
Cynnig 4 Proposal 4 (Cyllid Finance)	26 27
Cynnig 5 Proposal 5 (Eglwysi ar agor Open churches)	30 31
Cynnig 6 Proposal 6 (Cyngor yr Ardal Weinidogaeth Ministry Area Council)	32 33
Y Cynigion gan gynnwys canlyniad y pleidlais The Proposals including the result of the vote	34 35

Cyflwyniad

Fe sbardunodd Adroddiad yr Arolwg, a ysgrifennwyd gan Mr Simon Parton, drafodaeth sydd wedi bod yn werthfawr a chreadigol. Er i'r awgrymiadau eu hunain ddenu ymateb negyddol (ond nid unfrydol), gwnaethant inni ganolbwyntio, ac arwain ein meddyliau at bwysigrwydd gafael yn y cyfle olaf, efallai, i lunio dyfodol cadarnhaol i'r dystiolaeth Gristnogol a gweinidogaeth yr Eglwys Anglicanaidd yn rhan yma o Lŷn.

Serch hynny nid arweiniodd y trafodaethau hyn at gynigion trosfwaol i Gyngor yr Ardal Weinidogaeth (CPE) allu trafod a phenderfynu drostynt. O ganlyniad, ar ôl llawer o anogaeth a pherswâd, yr wyf wedi casglu fy meddyliau a'm hawgrymiadau ar sut y gallem ail-drefnu ac adlinellu ein hunain i wynebu galwad Duw ar gyfer ein bywyd gyda'n gilydd. Seiliwyd y rhain ar yr egwyddorion a'r blaenoriaethau ar gyfer y weinidogaeth, a rennais gyda Chyngor yr Ardal Gweinidogaeth ym Mis Medi ac hefyd ym mhob sgwrs a gefais ers cyrraedd Bro Madryn ddwy flynedd yn ôl.

Hoffwn awgrymu chwech phrif gynnig – mae rhai, yn ôl pob golwg, yn syml; eraill yn gymhleth ac, o bosibl, ddadleuol.

- 1. Ein bod ni'n safoni, ar draws yr Ardal Weinidogaeth, y llithiadur (y dewis o ddarlleniadau ar gyfer y Suliau) a'r litwrgi (trefn gwasanaethau) a ddefnyddir.*
- 2. Ein bod ni'n gweithredu ad-drefniad eglwys-wrth-eglwys o'r addoliad a gynigir ar Ddydd Sul.*
- 3. Ein bod yn ymrwymo i chwilio am ffyrdd posibl o ddefnyddio'r cronfeydd o Eglwys Ceidio i ad-drefnu Eglwys Dewi Sant, Nefyn; i'w gwneud yn adeilad mwy hyblyg a chroesawgar, a fydd yn addas i ffurfiau ehangach o addoliad, i fyw o ddefnydd gan y gymdeithas, yn safle ar gyfer Swyddfa Bro Madryn, ac i gyflawni ei swydd fel eglwys 'hwb' yr Ardal Gweinidogaeth.*

Introduction

The Review Report written for us earlier this year by Mr Simon Parton sparked a discussion which has been incredibly valuable and creative. Whilst Simon's recommendations themselves drew much negative reaction (although not unanimously so), they focussed our attention and led to an honest reflection from many about the need to grasp this potentially final opportunity to shape a positive future for the Christian witness and ministry of the Anglican Church in this part of the Llŷn Peninsula.

However, those discussions did not lead to an over-arching set of proposals which our Ministry Area Council (PCC) were able to address and decide upon. As a result, and after much encouragement and cajoling, I have gathered together my own thoughts and suggestions for how we might re-order and realign ourselves to face God's calling on our life together. These are based on the principles and priorities for ministry which I shared with the MAC in September but also on all of the conversations of which I have been a part since arriving in Bro Madryn just over 2 years ago.

There are 6 main proposals which I want to bring – some of them apparently simple, others more complex and potentially disputable. They are:

- 1. that we standardise across the Ministry Area the lectionary (choice of Sunday readings) and liturgy (forms of service) which we use.*
- 2. that we implement a church-by-church re-organisation of the way in which we offer Sunday worship.*
- 3. that we commit to investigating the possible ways of using the funds available from Ceidio Church to re-order St David's Church, Nefyn; such that it would be a more flexible and welcoming building, suitable for wider forms of worship, increased community use, a site for a Bro Madryn Office, and to match its role as a 'hub' church for the Ministry Area.*

4. *Ein bod ni'n ymrwymo i weithio tuag at gasglu ein hasedau ariannol a'n ffynonellau incwm i un cyfrif canolog ar gyfer cenhadaeth a gweinidogaeth ein heglwysi gan oruchwylio'r cyllid a wariwyd ar ein mynwentydd, a hefyd ein bod ni'n sefydlu 'Ffrindiau Eglwysi Bro Madryn' i godi a rheoli'r cyllid dros gynnal a chadw ein hadeiladau hanesyddol.*

5. *Ein bod ni'n gweithio tuag at gael pob un o'n heglwysi ar agor i ymwelwyr yn ystod y dydd.*

6. *Ein bod ni'n lleihau maint Cyngor yr Ardal Weinidogaeth a'r aelodaeth bresennol, (sef tuag at 27) i faint fwy hylaw.*

Mae manylion y cynigion yma isod. Y mae'r mandad i wneud penderfyniadau fel hyn yn sefyll gyda Chyngor yr Ardal Weinidogaeth. Estynnir gwahoddiad i'r corff hwnnw ymateb i a phleidleisio dros bob cynnig.

4. *that we commit to working towards gathering our various financial assets and sources of income into one central account as far as the mission and ministry of our churches is concerned whilst retaining sensible oversight for the finances linked with our churchyards; and that we establish a 'Friends of Bro Madryn Churches' organisation to raise and manage funds for the maintenance of our historic buildings.*

5. *that we work towards having each of our churches open to visitors during the daytime.*

6. *that we reduce the size of the Ministry Area Council from its current membership (potentially 27) to something more manageable.*

The details of each of these proposals are laid out below. The mandate for making decisions of this kind lies with the MAC. That body will then be invited to respond to and vote on each proposal.

Cynigion

1 *Ein bod yn safoni, ar draws yr Ardal Weinidogaeth, y llithiadur a'r litwrgi a defnyddiwn.*

Defnyddir *Llithiadur yr Eglwys yng Nghymru* a threfn *Cymun Bendigaid 2004* yr Eglwys yng Nghymru eisoes gan y mwyafrif o'n heglwysi, ac eithrio Pistyll, Llangwinnadl a Bryncroes, sydd yn defnyddio litwrgi a llithiadur yr Eglwys yng Nghymru o 1984. Defnyddir trefn 1984 ar gyfer Boreol a Hwyrrol Weddi ym mhob un o'n heglwysi. Mae trefn eithaf newydd yr Eglwys yng Nghymru (*Gweddi Ddyddiol 2009*) yn cynnwys Boreol Weddi a Hwyrrol Weddi, gan ddefnyddio iaith debyg i'r drefn ar gyfer *Cymun Bendigaid 2004*.

Cynnig 1

yw bod pob un o'n heglwysi yn defnyddio Llithiadur yr Eglwys yng Nghymru, Cymun Bendigaid 2004 a Boreol a Hwyrrol weddi o Gweddi Ddyddiol 2009 ar gyfer ei haddoliad, gydag amrywiadau mân lleol pan fo angen.

2 *Ein bod yn gweithredu ail-drefniad eglwys-wrth-eglwys o'r addoliad a gynigir ar Ddydd Sul.*

Trafodwyd y naw eglwys yn ei thro isod ond trafodwyd rhai eglwysi gyda'i gilydd mewn grŵp oherwydd tebygrwydd yn y ffordd yr awgrymaf iddynt gael eu defnyddio.



a) Eglwys Dewi Sant, Nefyn

Oherwydd maint poblogaeth Nefyn a Morfa Nefyn o'i gymharu ag un gweddill yr Ardal Weinidogaeth, mae'n gwneud synnwyr i bennu Eglwys Dewi Sant fel Eglwys 'Hwb' Bro Madryn. Dydi hyn yn golygu y bydd yn gogynnwys holl fywyd yr eglwysi eraill ond, yn hytrach, trwy ei wneud yn lle i gyfran sylweddol o weithgaredd yr Ardal Weinidogaeth, galla bywyd ac lifo allan ohoni i weddill Bro Madryn.

Proposals

1 *That we standardise across the Ministry Area the lectionary and liturgy which we use.*

Many but not all of our churches already use the Church in Wales Lectionary and the CinW 2004 *Holy Eucharist*, with the exception of Pistyll, Llangwnnadr and Bryncroes which use the CinW liturgy and lectionary from 1984. That 1984 liturgy is what is used in all of our churches for services of Morning and Evening Prayer. The relatively new CinW 2009 *Daily Prayer* contains MP & EP services in a linguistic approach along similar lines to the 2004 HE.

Proposal 1

is that all of our churches use the Church in Wales Lectionary, the 2004 Holy Eucharist and the 2009 Daily Prayer versions of Morning and Evening Prayer as the basis for their worship, with minor local variations as necessary.

2 *That we implement a church-by-church re-organisation of the way in which we offer Sunday worship.*

Each of our nine current churches is addressed here in turn, but some have been grouped together because of similarities in the way in which I am proposing that they are used.



a) St David's Church, Nefyn

Because of the relative population of Nefyn and Morfa Nefyn compared to the rest of the Ministry Area it only makes sense to allocate St David's Church as a 'hub' church for Bro Madryn. This is not to say that it should subsume all of the life of the other churches, but rather that in making it a place for a significant proportion of the activity of the Ministry Area, life and energy can flow from it out to the rest of Bro Madryn.

Dymuniad pawb ohonom yw gweld mwy o bobl o drawstoriad ehangach o'n cymuned yn dod i adnabod Duw a'i addoli drwy weinidogaeth ein heglwysi. Mae'n rhaid i Eglwys Dewi Sant gymryd hyn o ddifri a chymryd y cyfrifoldeb o arwain hyn ac felly 'rwyf yn cynnig newid arwyddocaol ym mhatrwm yr addoliad yma. Mae angen gwasanaethau sy'n fwy hygyrch i'r rhai nad ydynt, ar hyn o bryd, yn mynychu'r eglwys, ond dydi hyn ddim yn golygu nad oes lle i addoliad traddodiadol sy'n canolbwyntio ar y litwrgi. Yn wir, fel un eglwys fyd-eang, 'rydym yn un mewn ffydd ond yn wahanol mewn arfer. Gall hyn fodoli yn Nefyn. Fy nghynnig i yw ein bod yn sefydlu dau wasanaeth boreol, un yn dull draddodiadol a'r llall yn fwy cyfoes, a bod te a choffi ar gael rhwng y ddau oedfa, i alluogi'r ddwy gynulleidfa i gwrdd a chymdeithasu.

9yb Gwasanaeth Traddodiadol

- Cymraeg/Saesneg bob yn ail wythnos
- Canolbwyntio ar y Ewcharist, ond nid yn wythnosol o anghenraid
- datblygu addoliad o safon uchel gyda cyfle i:
 - adfywiad o draddodiad corawl a gwasanaethau ar gân
 - y defnydd achlysurol o *Lyfr Gweddi Cyffredinol 1662*
 - arferion mwy 'catholig' - y defnydd o aroglarth, *ayyb*

Lluniaeth ar gael rhwng y gwasanaethau

10:30yb Gwasanaeth Cyfoes

(Gan ddefnyddio'r gair 'Dathliad' fel disgrifydd i'r cyhoedd)

- Dwyieithog yn wythnosol
- ffocws pob-oed, sef cyfle i bawb i gymryd rhan
- gwasanaethau Cymun yn achlysurol
- defnydd o dechnoleg a cherddoriaeth fodern

6yh Gwasanaeth Hwyrrol

- Dwyieithog yn wythnosol
- cymysg o'r traddodiadol a'r anffurfiol gyda phatrwm yn dod i'r amlwg, efallai, dros amser
- gwasanaethau Cymun yn achlysurol

Cynnig 2a

yw bod Eglwys Dewi Sant, Nefyn, yn cynnal Gwasanaeth Traddodiadol am 9yb, Gwasanaeth Cyfoes am 10:30 a Gwasanaeth Hwyrrol am 6yh.



Our shared desire is to see more people from a wider cross-section of our community come to know God and worship Him through the ministry of our churches. St David's Church must take a lead on this and so I am proposing a significant change in the pattern of worship here. There need to be services which are more accessible to those who currently don't attend church, but that doesn't mean that there is no place for traditional, liturgically-focussed services. Indeed, as one global church we are united in faith but different in practice. That can be the case in Nefyn. My proposal is that we establish two morning services, one traditional and one more contemporary in approach, and that tea and coffee *etc.* are served in the time between those two services, enabling the two congregations to meet and socialise.

9am Traditional Service

- alternating between English and Welsh week by week
- a Eucharistic focus, though not necessarily weekly
- developing high-quality worship with opportunity for:
 - the resurgence of a choral tradition and sung services
 - occasional use of the *1662 Book of Common Prayer*
 - more 'catholic' practices – the use of incense, *etc.*

Refreshments served between the two morning services

10:30am Contemporary Service

('Celebration' as a possible descriptor for the public)

- conducted bilingually every week
- an 'intergenerational' focus where all ages are enabled to engage
- occasional Communion services
- the use of technology and contemporary worship music

6pm Evening Service

- conducted bilingually every week
- variously 'traditional' and 'informal' with the possibility of a pattern emerging over time
- occasional Communion Services

Proposal 2a

is that St David's Church, Nefyn, move to a 9am Traditional Service, a 10:30am Contemporary Service and a 6pm Evening Service.



b) Eglwys Beuno Sant, Botwnnog

Mae cryfderau a manteision Eglwys Botwnnog – ei hail-drefnu diweddar, y lefelau da o bresenoldeb, y rhoddi hael a'r weinidogaeth sylweddol i bobl ar ei gwyliau wedi gwneud y drafodaeth ar ddyfodol yr eglwys hon yr un fwyaf anodd o bosibl. Tra 'rwyf yn cynnig bod gwasanaethau rheolaidd y Sul yn dod i ben, nid 'wyf yn beirniadu'r gynulleidfa a'r weinidogaeth gynigir yno nac yn awgrymu bod y digwyddiadau eraill Bro Madryn.

Yn syml, credaf bod y rhwystr diwylliannol (o ran iaith yn bennaf ond nid yn unig) rhwng Eglwys Botwnnog a'r gymuned o'i chwmpas wedi tyfu i'r fath radd fel na ellir torri trwodd heb ail-ystyried yn llwyr natur yr eglwys yn y lle hwn. Nid gweld bai yr 'wyf – mae pethau wedi newid yn yr ardal ers pan oedd yr eglwys, dan Mr Vevar a'r clerigwyr a' dilynodd, yn medru cyfathrebu â'r gymuned a bod yn rhan ohoni.

Byddai ceisio newid Eglwys Beuno Sant i fod yn ddwyieithog yn aneffeithiol ac yn achosi gormod o broblemau ac eto, byddai ei gwneud yn uniaith Gymraeg yn amhriodol wrth ystyried cryfder gweinidogaeth Capel Rhydbach. Ar yr un pryd, mae cyfleoedd cyffrous yn datblygu gyda'r posibilrwydd o ffurfio cynulleidfa newydd yn Abersoch, drwy weinidogaeth Bro Enlli.

Yr hyn a gydnabuwyd, dro ar ôl tro, yw agosrwydd yr adeilad i Ysgol Botwnnog (hefyd i Ysgol Pont y Gof, yr unig Ysgol Eglwys yn yr Ardal Weinidogaeth) a'r holl bosibiliadau yn sgîl hynny. Ond ni fydda i angen cynulleidfa eglwysig draddodiadol yn addoli yno ar y Sul i weld gwireddu'r posibiliadau hynny. 'Rwyf yn cynnig, felly, ein bod yn ceisio darganfod sut y gallem ddatblygu Eglwys Beuno Sant i fod yn gyfleuster i weithio gyda phobl ifanc yr ysgol a'r ardal ehangach. Mae'n bod yna ffyrdd i gyd-weithio â'r Esgobaeth, yr Eglwys yng Nghymru, enwadau eraill (fel pan oedd Botwnnog yn rhan o Bartneriaeth Eciwmenaid Lleol), sefydliadau Cristnogol eraill, fel *Trobwynt*, a'r Ysgol ei hunain, i greu rhywbeth tebyg i 'Ganolfan Gaplaniaeth' neu 'Lolfa Ieuencid'. Mae hon yn weledigaeth gyffrous gyda potensial mawr, ond fedrwn ni ddim addo y bydd hyn yn digwydd. Gallai fod yn brosiect arwyddocaol, yn golygu llawer iawn o waith, ond nid yw hyn yn rheswm dros ei anwybyddu.

b) St Beuno's Church, Botwnnog

The many strengths and advantages of Botwnnog Church – its recent re-ordering, good levels of attendance, generous giving and significant ministry to holidaymakers – have made the discussion of the future of this church possibly the most difficult of all. Whilst my proposal is that regular Sunday worship ceases, that is in no way meant to be seen a criticism of the congregation and the ministry which they offer. Nor is it a suggestion that what takes place there is of any less value than other churches in Bro Madryn.

Quite simply, I believe that the cultural barrier (primarily of language, but not exclusively so) between Botwnnog Church and its community has grown to a height where it cannot be breached without completely re-imagining the nature of the church here. Again, this is not a statement which carries any blame – things have quite simply changed around the church from when, under Mr Vevar and subsequent clergy, it was able to speak to and engage with the community.

To try and turn St Beuno's into a bilingual church would be ineffective and problematic and yet to make it a Welsh-language church would be inappropriate given the strength of the ministry of Capel Rhydbach. At the same time, there are also exciting opportunities developing as to the possibility of a new congregation being formed through Bro Enlli in Abersoch.

What has been repeatedly acknowledged is the proximity of the building to Ysgol Botwnnog (and indeed Ysgol Pont-y-Gof, the only Church in Wales School in the Ministry Area) and all the potential which that implies. However, the presence of a traditionally-understood church congregation worshipping there on a Sunday would not in any way be necessary for that potential to be realised. I am therefore proposing that we investigate how we might be able to develop St Beuno's into a facility for engaging with the young people of the school and wider area. There are, surely, possible ways to work with the diocese, the province, other local denominations (as when Botwnnog was part of the Local Ecumenical Partnership), Christian organisations such as *Trobwynt* and the School itself to create something along the lines of a 'Chaplaincy Centre' or 'Youth Lounge'. This seems an exciting vision with great potential, but we can't promise that it will happen. It could be a significant project which requires a lot of work, but this isn't a reason to discount it.

Yn ymarferol, byddai'n gwneud synnwyr i ni gadw'r cyfrifoldeb dros yr adeilad ei hun. Gan wneud defnydd ohono trwy'r flwyddyn ar gyfer addoliad, byddai'r cyfrifoldeb am unrhyw newidiadau yn parhau yn eglwysig ac ni fyddai rhaid cael caniatâd gan y Weithdrefn Cynllunio. Gellid cyflawni hyn trwy ei ddefnyddio yn fisol fel lle i gyfarfodydd *Gweddi a Mawl* ganol yr wythnos – addoliad anffurfiol i bawb dros Ben Llŷn fyddai'n cael budd ohonynt. Yn yr un modd gallai'r cyfarfod gweddi wythnosol barhau yno, ac unrhyw ddigwyddiadau cymdeithasol a chyfarfodydd eraill, o bryd i'w gilydd – cyn belled â bod pwrpas yr adeilad heb ei gyfaddawdu, sef man i weithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd.

Cafodd y cynnig yn adroddiad Simon Parton, i'r cynulleidfa symud '*en masse*' i Eglwys Dewi Sant, Nefyn, ei dderbyn, yn anffodus ac yn anfwriadol, fel cynnig anystyriol dros ben. Serch hynny, ag ystyried natur y gynulleidfa ym Motwnnog, ni allwn anwybyddu'r tebygolrwydd y gallai nifer sylweddol ohonynt ddewis gwneud hynny. Ond byddai'n gamwedd gyda'r mwyaf i geisio gorfodi, neu hyd yn oed annog, eraill i wneud hyn mewn unrhyw ffordd, ond bai eu bod yn mynd yn wirfoddol ac ar anogaeth yr Ysbryd Glân. Wedi dweud hynny, un o gryfderau Eglwys Botwnnog yw'r ymdeimlad o fod yn teulu, gyda chalon i weddio gyda'i gilydd. 'Rwy'n gobeithio'n fawr bod hyn yn rhywbeth cryfach nag unrhyw ymlyniad i'r eglwys fel adeilad ac y gallant fynd ymlaen fel yr awgrymwyd uchod.

Cynnig 2b

yw bod gwasanaethau'r Sul yn Eglwys Beuno Sant, Botwnnog, yn dod i ben, a'n bod yn ymrwymo i geisio casglu pobl â diddordeb at ei gilydd i wneud defnydd o'r adeilad i gyflwyno'r Newyddion Da am Iesu Grist i blant, pobl ifanc a theuluoedd yn yr ardal, yn enwedig Ysgol Botwnnog; a'n bod yn cychwyn cyfarfod *Gweddi a Mawl canol-wythnos yn fisol*.



c) Eglwys Beuno Sant, Pistyll

Mae'r weinidogaeth gynigir drwy Beuno Sant, er nad oes ond tua saith gwasanaeth y flwyddyn yno, yn enghraifft dda o'r hyn y gall adeilad bychan iawn a syml ei gynnis yng ngwasanaeth Teyrnas Duw. Daw cannoedd, os nad miloedd, o ymwelwyr yno bob blwyddyn, ac mae'r rhai sy'n addoli yno'n fynych yn dweud sut mae'r lle ei hun yn cyfrannu at eu gallu i gyfarfod â Duw. Felly dydw i ddim yn cynnig unrhyw newid pwysig, ar wahân i'r dymuniad i fanteisio ar hanes yr iacháu

Continuing to make some use of the building through the year for worship would mean that it kept ecclesiastical exemption from Planning Procedures which would continue to be covered by the diocesan faculty process. This could be achieved by using it as the location for monthly, mid-week *Prayer & Praise* gatherings, such as I have previously indicated a desire to offer – an informal act of worship for those around Pen Llŷn who would find it helpful and beneficial. Similarly, the weekly Prayer Meeting could continue to be held there, as could other social events and meetings which might be desirable from time to time – as long as the purpose of the building being there for engaging with children, young people and families was not compromised.

The proposal in Simon Parton’s Report that the congregation move *en masse* to St David’s Church in Nefyn was, unfortunately and unintentionally, received as being deeply insensitive. However, we cannot fail to address that there is a high likelihood, given the makeup of the congregation in Botwnnog, that a significant proportion of them may choose to do that. But it would be quite wrong to seek to compel or even encourage others to do so in any way other than voluntarily and at the prompting of the Holy Spirit. That being said, one of the great strengths of Botwnnog Church is their sense of family unity and their heart for praying together. I would very much hope that this is something stronger than any ties to the church building and that they could continue as suggested above.

Proposal 2b

is that St Beuno’s Church, Botwnnog, ceases to hold Sunday services and that we commit to investigating gathering interested parties together to make use of the building for the purpose of engaging children, young people and families in the area, particularly Ysgol Botwnnog, with the Good News of Jesus Christ; and that we create there a new, mid-week Prayer & Praise event.



c) St Beuno’s Church, Pistyll

The ministry offered through St Beuno’s, whilst only about seven services a year, is a good example of what a very small, humble building can offer in service of God’s Kingdom. It is visited by hundreds if not thousands of people through the year, and those who attend worship there frequently comment on how the place itself contributes to their ability to encounter God. So I am not proposing any significant change other than indicating a desire to tap into the history of healing associated

oedd yn gysylltiedig â'r *Llan* wreiddiol, trwy ychwanegu Gwasanaeth Iacháu penodol yn achlysurol yn ystod y flwyddyn.

Cynnig 2c

yw bod Eglwys Beuno Sant, Pistyll, yn dal ati gyda'r patrwm o addoli sydd yno ar y pryd, gan ychwanegu Gwasanaethau Iacháu ar adegau trwy'r flwyddyn.



Mae'r ddau gynnig nesaf yn cyfeirio at yr eglwysi yn Nhudweiliog a Llaniestyn. Er nad yw'r ddau yn union yr un fath, mae'r cynigion yn debyg, gan eu bod yn awgrymu llai o ddefnydd o'r adeilad ar y ac yn canolbwyntio ar wneud pob gwasanaeth yn 'achlysur arbennig'. Daeth y syniad gwreiddiol ynglŷn â hyn o gynulleidfa Tudweiliog ac nid wyf am ymddiheuro o gwbl am y ffordd yr wyf wedi ei gadarnhau a'u canmol hwy am y ffordd aberthol a llawn dychymyg y ddaethant i'r penderfyniad. Mae eglwys Llaniestyn hefyd wedi cael trafodaethau da ac wedi meddwl yn greadigol iawn sut 'y gallant wneud mwy trwy wneud llai'.

d) Eglwys S Cwyfan, Tudweiliog

Yng nghyfarfod CAW ym Mis Medi, gydag Esgob Andy a Siôn Rhys Evans (Ysgrifennydd yr Esgobaeth) cynigiwyd y canlynol gan gynulleidfa S Cwyfan: y byddent nhw yn ymrwmo i tua deg gwasanaeth 'arbennig' y flwyddyn. Byddai rhai ohonynt yn cyd-ddigwydd â gwyliau arbennig y flwyddyn eglwysig (Y Pasg, Diolchgarwch, Y Nadolig *ayyb*) yn cael eu cynnal ar amrywiol amserau ar amrywiol ddyddiau addas, ac yn cael eu hysbysebu ym mhob man posibl yn y pentref, yr ardal o gwmpas ac yn yr eglwysi eraill. Byddai'r rhestr wasanaethau yn cael ei threfnu gan y gynulleidfa a'r Ficer cyn dechrau'r flwyddyn.

Daeth datblygiad pellach ar ôl mwy o drafod a hwnnw oedd mai Tudweiliog fyddai'r dewis cyntaf fel lleoliad i'r Gwasanaethau'r Bro ar y 5^{ed} Sul o'r mis (gweler Cynnig 2j).

Cynnig 2d

yw fod Eglwys S Cwyfan, Tudweiliog, yn dilyn patrwm afreolaidd o tua deg gwasanaeth y flwyddyn, gytunwyd ymlaen llaw gan y cynulleidfa a'r Ficer, ac mai yno fydd lleoliad y rhan fwyaf o wasanaethau ar y cyd yr Ardal Weinidogaeth ar y 5^{ed} Sul o'r mis.

with the original *Llan* by adding in specific Healing Services on occasion through the year.

Proposal 2c

is that St Beuno's Church, Pistyll, continue in their current pattern of worship, seeking to add Healing Services on occasion through the year.



The following two proposals refer to the churches in Tudweiliog and Llaniestyn. Whilst not identical, the proposals are very similar in that they suggest a less frequent use of the building for Sunday worship and a focus on making each and every service a 'special event'. The initial idea for this approach came from the congregation in Tudweiliog and I make no apology for how I have affirmed and praised them for the imaginative and sacrificial way in which they came to this point. Llaniestyn church similarly have had good conversations and thought creatively about how they might 'do more by doing less'.

d) St Cwyfan's Church, Tudweiliog

At the meeting of the MAC in September with Bishop Andy and Siôn Rhys Evans (the Diocesan Secretary) the following proposal was put forward by the St Cwyfan's congregation: that they commit to something in the region of ten 'special' services a year. Some of these would coincide with the major festivals of the church year (Easter, Harvest, Christmas/Christingle etc.), would be held at various times on various days as is suitable, and would be advertised widely in the village, surrounding area and through the other churches. The schedule of services would be set out in a congregational meeting with the Vicar shortly before the beginning of the year.

Further conversations have developed the idea slightly in that Tudweiliog would be the first-choice location for Ministry Area Services on 5th Sundays of the month (see Proposal 2j).

Proposal 2d

is that St Cwyfan's Church, Tudweiliog, turn to an irregular pattern of approximately ten services a year, as agreed in advance by the congregation and the Vicar, and that they would be the venue for most Ministry Area Services held on 5th Sundays of the month.

e) Eglwys S Iestyn, Llaniestyn

Mae'r cynnig i Laniestyn, felly, yn debyg iawn i un Tudweiliog. Gofyn y cynnig am fwy o wasanaethau yn yr haf nag yn y gaeaf, ond heb esgeuluso'r Adfent a'r Nadolig, ac am i bob y gwasanaethau ar y Sul ddechrau am 5yh.

Mae cael gwasanaeth hwyrol ym Mro Madryn o werth mawr. Er bod Cynnig 2a yn awgrymu bod hwn ar gael yn Nefyn, mae syniad creadigol arall wedi datblygu. Mae hi'n bosibl gwneud yn siŵr y bydd Eglwys Llaniestyn ar agor bob nos Sul drwy'r flwyddyn er mwyn i unigolion neu grŵp bach o bobl fedru arwain gwasanaeth Hwyrol Weddi eu hunain ar yr Suliau pan nad oes clerigwr neu Ddarllenwr yno i wneud. Bydd popeth angenrheidiol at wasanaeth o'r fath ar gael yng nghyntedd yr eglwys ynghyd â'r darlleniadau a'r emynau. Mi fydd y daflen wasanaeth yn cynnwys canllawiau a chyfarwyddyd i siwtio un addolwr neu gynulleidfa fwy niferus.

'Rwyf yn awyddus fod y syniad yma yn cael ei weld fel treial na chynllun hollol-ardystiedig all gael ei drosglwyddo yn awtomatig i eglwysi eraill. Efallai y bydd o ddefnydd yn rhywle arall, ond mae peryglon mewn cael gwared o arolygiaeth glerigol. Bydd yn rhaid gwerthuso hyn rhywbryd.

Cynnig 2e

yw fod Eglwys S Iestyn, Llaniestyn, yn lleihau'r nifer o wasanaethau i'r hyn a gytunwyd ymlaen llaw rhwng y cynulleidfa a'r Ficer ac, ar sail prawf, datblygir pecynnau Hwyrol Weddi i alluogi lleygwyr i ddarllen y gwasanaeth pan na fyddo gweinidog trwyddedig yn bresennol.



f) Eglwys S Edern, Edern

Daeth Eglwys Edern hefyd i gyfarfod CAW ym mis Medi gyda chynnig penodol, a gwnaethant yn glir nad eu dewis cyntaf oedd ond safle o gyfaddawd, gan gydnabod y pwysau sy'n cael ei roi ar yr Ardal Weinidogaeth gyfan. Eu cynnig hwy oedd symud o wasanaethau wythnosol i un bob pythefnos.

e) St Iestyn's Church, Llaniestyn

The proposal for Llaniestyn is similar to Tudweiliog, but not identical. Here, the suggestion has been made that there be a greater concentration of services in the summer than in the winter, but not to the exclusion of Advent and Christmas, and that the services held be more uniform in their timing – Sundays at 5pm.

The value of there being an evening service available in Bro Madryn has been well highlighted. Whilst Proposal 2a suggests that this is offered in Nefyn, another rather creative idea has developed. It would be possible for Llaniestyn church to be guaranteed to be open on every Sunday evening through the year such that, on those weeks when a clergy- or Reader-led service is not being held, everything required for a self-led service of Evening Prayer is provided at the entrance of the church. Anyone who wishes to come and read through the service, readings and even hymns if desired, would be able to do so. The service leaflet would include suitable guidance and direction for times when just one person comes or for when a number of people are present.

I am very keen that this particular idea is seen as a trial, rather than a fully-endorsed scheme which can then automatically be reproduced in other churches. It may well be of benefit elsewhere, but there are potential pitfalls to removing clerical oversight which will need to be appraised at some point.

Proposal 2e

is that St Iestyn's Church, Llaniestyn, turn to a reduced pattern of services, as agreed in advance by the congregation and the Vicar, and that, on a trial basis, Evening Prayer 'packs' are developed to enable the laity to read this service without a licenced minister present.



f) St Edern's Church, Edern

Edern Church also came to the September MAC meeting with a specific proposal, though they made it clear that it would not be their first choice and that it was a compromise position, recognising the pressures placed on the Ministry Area as a whole. The proposal was that they might move from weekly to fortnightly services.

Fel y dywedais yn y gorffennol dydi lleihau'r nifer o wasanaethau ddim yn mynd i wneud â newid llesol i eglwys. 'Rwyf yn gobeithio, felly, bydd y cynnig yma yn rhoi cyfle i wneud mwy o'r gwasanaethau fydd yn cael eu cynnal.

Mae angen cadw at y cydbwysedd ieithyddol sydd yno ar hyn o bryd, felly bydd un gwasanaeth y mis yn y Gymraeg (gydag un Cymun bob tri mis gyda'r lleill yn Foreol Weddi dan arweiniad medrus Mr Wyn Hughes a/neu Mr Griff Roberts) ac un yn Saesneg (gyda Cymun ddwy waith bob tri mis a'r gwasanaeth arall yn Foreol Weddi).

Cafodd cais blaenorol o symud amser y gwasanaeth o 10yb i 9:30yb ei wrthwynebu felly, gan ystyried y cynnig o amseroedd newydd i wasanaethau Nefyn, 'rwyf yn cynnig bod Edern yn symud i amser hwyrach 10:30yb i ganiatáu amser i rywun sy'n arwain gwasanaeth 9yb yn Nefyn deithio ymlaen i Edern erbyn 10:30yb.

Cynnig 2f

yw bod Eglwys S Edern, Edern, yn symud i batrwm o gyfarfod unwaith bob pythefnos, un gwasanaeth yn y Gymraeg ac un yn Saesneg, gydag amser y gwasanaeth yn 10:30yb.



Mae'r ddau gynnig nesaf yn cyfeirio at yr eglwysi ym Bryncroes a Llandudwen. Mae Eglwys Llandudwen yn gyfarwydd iawn â chael ei gwasanaethau dan arweiniad Mr Joe Worthington, un o'n Darllenwyr. Mae Joe wedi gwneud llawer mewn nifer fawr o'n heglwysi, ond mae'r weinidogaeth mae wedi ei rhoi, ac 'rwyf yn gobeithio y bydd yn parhau i'w rhoi, yn Llandudwen wedi bod yn amhrisiadwy i'w pharhaol. Mewn rhannau eraill o'r Eglwys yng Nghymru, mae gweinidogaeth fel un Joe wedi cael ei disgrifio fel gweinidogaeth ganolog; rhywun nad yw'n glerigwr cyflogedig, sydd â gofal dros eglwys benodol, o dan awdurdod y Ficer, ond yn fwy na hynny, gyda'i gymorth a'i anogaeth. 'Rwyf yn cynnig fod hyn yn parhau yn Llandudwen, a dyna'r ffordd y mae Eglwys Bryncroes yn cael estyniad bywyd, dan weinidogaeth canolog Mr Donald Roberts, ein Darllenwr arall.

g) Eglwys y Santes Fair, Bryncroes

Gyda'r awgrym yn Cynnig 2b y byddai'n amhriodol i droi Eglwys Botwnnog yn eglwys Gymraeg, gofynnwyd cwestiwn pwysig am ein darpariaeth dros yr iaith

I have said in the past that simply reducing the number of services is unlikely to be a beneficial change to a church. It is my hope that this proposal would carry with it an opportunity to make more of the services which are held.

There would be a need to retain the current language balance, so one service a month would be in Welsh (probably Communion once every three months with the other services being Morning Prayer, ably led by Mr Wyn Hughes and/or Mr Griff Roberts) and one in English (probably Communion twice every three months with the other service being Morning Prayer).

A previous request to see the time of service move from 10am earlier to 9:30am was resisted, so given the proposed new times of the services in Nefyn I would propose that Edern move later to 10:30am, allowing time for someone leading a 9am service in Nefyn to come on to lead a 10:30am service in Edern.

Proposal 2f

is that St Edern's Church, Edern, move to a fortnightly pattern of service, one in Welsh and one in English, with the time of service being 10:30am.



The two following proposals refer to the churches in Bryncroes and Llandudwen. Llandudwen Church is very used to the majority of its Sunday Services being led by Mr Joe Worthington, one of our Readers. Joe has done a great deal in many of our churches, but the ministry which he has offered, and I hope continues to offer for some time, in Llandudwen has been invaluable to its continued use. In other parts of the Church in Wales, a ministry such as Joe's has been described as that of a focal minister; someone who is not a stipendiary cleric, but who has particular oversight of the running of a particular church, under the authority of the Vicar but more importantly with their support and encouragement. I am proposing that this continues for Llandudwen, but that it is also the means by which Bryncroes Church is given a new lease of life, under the focal ministry of Mr Donald Roberts, our other Reader.

g) St Mary's Church, Bryncroes

With the suggestion in Proposal 2b that turning Botwnnog Church into a Welsh-language church would be inappropriate, there was a significant question

Gymraeg yng ngorllewin Bro Madryn. Wrth gynnig Donald Roberts fel *gweinidog canolog* 'rwyf yn gobeithio y caiff yr eglwys hwb arwyddocaol. Dengys yr holl dystiolaeth dros dyfiant yr eglwys ar draws yr DU mai arweiniad a gweinidogaeth gyson yw un o'r ffactorau pwysicaf. Gall sgiliau Donald, yn unol â pharodrwydd y gynulleidfa a chymorth y Ficer ac eraill sydd wedi bod yn arwain addoliad yno, weld dyfodol cadarnhaol yn dod i'r golwg.

Mi fydd Donald, fel pob Darllenwr yn yr Eglwys yng Nghymru, yn llunio 'cytundeb gwaith' gyda'r Ficer er mwyn iddo amddiffyn ei hunan rhag teimlo o dan bwysau i wneud mwy na dylai, gan ystyried ei fywyd teuluol a'i waith. Yn yr un modd, bydd y cytundeb yma yn rhoi sicrwydd i Eglwys Bryncroes o'r weinidogaeth y gallai ei disgwyl oddi wrth Donald, sef arwain y rhan fwyaf o'r gwasanaethau, er y byddai'r Ficer ac eraill sy'n medru arwain gwasanaethau yn y Gymraeg yn ymuno yn achlysurol. Mewn cydweithrediad â'r Ficer mi fyddai'n rhydd i weithio gyda'r gynulleidfa i ystyried a gweithredu mentrau newydd wedi eu lunio i weld yr eglwys yn tyfu mewn ffydd a nifer. Byddai unrhyw hyfforddiant y teimlai ef, y Ficer a'r Esgobaeth fyddai o fudd yn y sefyllfa hon, yn cael ei gynnig iddo gynted â phosibl.

Gan ystyried y cynigion a grybwyllwyd yn barod i newid amseroedd y gwasanaethau yn Nefyn ac Edern, efallai bydd Bryncroes am wneud penderfyniad tebyg i gael gwasanaeth am 10:30yb. Fodd bynnag, gan nad yw'r amser ar hyn o bryd yn cael effaith ar y gwasanaethau eraill, 'rwyf yn hapus i adael y mater iddyn nhw drafod gyda'r *Gweinidog Canolog* (os bydd cytundeb ynglŷn â'r swydd honno).

Cynnig 2g

yw fod Mr Donald Roberts yn cymryd y swydd o fod yn *Gweinidog Canolog* Eglwys y Santes Fair, Bryncroes, a'i fod yn derbyn y cymorth a'r awdurdod priodol i weithio gyda'r gynulleidfa i ddatblygu eu gwasanaethau a'u gweinidogaeth.

h) Eglwys S Tudwen, Llandudwen

Fel y ddywedais, mae Llandudwen yn gyfarwydd â Joe Worthington yn gweithredu o fewn swydd debyg i *Gweinidog Canolog* fel y disgrifiwyd uchod. 'Rwyf yn cynnig ein bod yn ffurfioli hyn yn gyson â'r weinidogaeth fyddai Donald yn ei chynnig.

to be answered about where that left our Welsh-language provision in the western part of Bro Madryn. By proposing that Donald Roberts take on a *focal minister* role there, it is my distinct hope that the church would be given a significant boost. All the evidence on church growth in the UK suggests that consistency of ministry and leadership is one of the most important factors. Donald's skills, coupled with the willingness of the congregation and the assistance of the Vicar and others who have been leading worship there, could well see a positive future come into sight.

Donald would, as all Readers in the Church in Wales are beginning to do, draw up a 'working agreement' with the Vicar. This would mean that he would be able to protect himself from feeling pressured into doing more than he should, given his work and family life. Similarly, this agreement would give certainty to Bryncroes Church as to the ministry that it was likely to receive from Donald. He would be taking the majority of services there, although the Vicar would join him on occasion, as would others who are able to lead services in Welsh. He would be free to work with the congregation, in co-operation with the Vicar, to consider and implement new initiatives designed to see the church grow in faith and number. Any training that he, the Vicar and the Diocese feel would be beneficial in this situation would be offered as soon as possible.

Given the proposals to change the times of the services in Nefyn and Ederne already mentioned, Bryncroes may feel that they wish to make a similar change to 10:30am. However, as their current service time wouldn't have any knock-on effect of what other services could be taken, I am content to leave this as a matter for them to discuss with their *Focal Minister* (if that role is agreed).

Proposal 2g

is that Mr Donald Roberts take on a role of *Focal Minister* for St Mary's Church, Bryncroes, and that he be given the support and appropriate authority to work with them to develop their services and ministry.

h) St Tudwen's Church, Llandudwen

As I have already said, Llandudwen are already used to Joe Worthington acting in a role similar to that of *Focal Minister* as described above. I would propose that we formalise this in line with the ministry Donald would offer.

Ers peth amser, mae Llandudwen yn ystyried cyfyngu ei gwasanaethau i'r haf ac eithrio gwasanaethau penodol y Nadolig. 'Rwy'n cynnig ein bod yn parhau â hyn fel treial, gan ei hannog, o dan arolygiaeth Joe, i ystyried os oes angen gwasanaethau wythnosol ar adegau mwyaf prysur yr haf.

Hoffwn annog Eglwys Llandudwen i ystyried symud y gwasanaeth i 9yb am y rhesymau a amlinellwyd yn Cynnig 2f, ond dydw i ddim yn teimlo y byddai'n iawn i wneud hwn yn cynnig swyddogol ar hyn o bryd, ond i weld, os derbynnir y cynigion hyn, a fyddai'n beth buddiol.

Cynnig 2h

yw bod Mr Joe Worthington yn parhau â'i weinidogaeth yn Llandudwen, gan ffurfioli ei swydd fel *Gweinidog Canolog*; a'u bod yn parhau i gyfarfod pob pythefnos, ond o'r Pasg hyd Ddiolchgarwch (a gynhelir yn gynnar ym Mis Medi) yn unig.



i) Eglwys S Gwynhoedl, Llangwnnagl

Ar wahân i Nefyn, Llangwnnagl yw'r unig eglwys lle 'rwyf yn cynnig iddynt barhau i gynnal gwasanaeth wythnosol. Nid ffafriaeth yw hon ond arwydd fy mod yn credu fod yn yr eglwys hon bosiblwydd o rywbeth arbennig ddylai gael pob cyfle.

Er ei bod yn cael ei hystyried o fewn ffiniau Bro Madryn fel ein heglwys fwyaf 'gatholig' yn ei dull litwrgaidd, nid yw yn 'uchel' o gymharu ag ehangder y dulliau addoli o fewn yr Eglwys yng Nghymru. Hoffwn weld y traddodiad yma yn cael ei ddefnyddio'n ddwysach a bod gwir gais am ragoriaeth mewn addoliad yma, fyddai'n ffynhonnell o fywiogrwydd ac egni i weddill Bro Madryn. Nid yw hyn yn awgrymu nad yw'r addoliad yno ar hyn o bryd eisoes yn rhagorol, ond yn hytrach y gellir ei ddatblygu ymhellach. Mae yna broblem yn codi gyda'r dull yma gan ei fod yn canolbwyntio ar yr Ewcharist ac mae yma brinder amlwg o offeiriaid. Mi fydda i, fel Ficer, yn rhoi llawer iawn o fy sylw ac amser i Nefyn, yr eglwys 'hwb' felly mi fydd hi'n anodd iawn i sicrhau tri Gwasanaeth Ewcharist y mis yn Llangwnnagl os yw gweddill y cynigion hyn yn cael eu derbyn.

Felly, fy nghynnig dros Llangwnnagl yw parhau gyda'i phatrwm presennol, ond ein bod yn ymrwymo i dymor o ddirnadaeth weddigar dros ddyfodol y weinidogaeth yn y fan hon. Efallai y byddai offeiriad sydd wedi ymddeol yn gallu

